

**Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

**Dydd Iau 13 Mehefin 2019**

**Canolfan Tywi, Llandeilo, 6pm**

**Yn Bresennol: Aelodau:**

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol  
Karen Burch (KB) - Is-gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol  
Dai Stacey (DS)  
Jillie Gardiner (JG)  
Richard Leggett (RL)  
Mo Rapley (MR)  
Paul Barrett (PB)  
Jim Shadbolt (JS)  
Geoff Williams (GW)  
Michael Jones (MJ)

**Ysgrifennydd (dros dro)**

Caroline Ferguson (CF) (Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad CSC - Dros Dro)

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd**

Steven Pilliner (SP) - Pennaeth Trafnidiaeth a Phrifyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin  
Rob Williams (RW) – Trail Riders Fellowship (TRF)

**Ymddiheuriadau: Aelodau:**

Martin Murray (MM)  
Jane Evans (JE)

**Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:**

Y Cyngorydd Peter Hughes Griffiths  
Neil Thomas – CSC  
Nigel Bailey  
Russell Jones – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

**Absennol:** Gerald Brown (GB)  
Glyn Evans (GE)

\*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin

EITEM	CAMAU GWEITHREDU
<p><b>Eitem 1 - Croeso a Chyflwyniad</b></p> <p>Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod a rhoddwyd chyflwyniadau o gwmpas y bwrdd.</p> <p>Rhoddodd SP gyflwyniad i'r fforwm ynghylch ei gefndir, ei rôl bresennol a'r heriau a wynebir gan yr adran gyfan gan gynnwys colli cyllid a phwysau ar y gyllideb. Yn ogystal, amlinellodd y rôl allweddol y bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn chwarae o ran rheoli Mynediad i Gefn Gwlad ond ychwanegodd fod rhannau o'r ddogfen yn uchelgeisiol a bydd yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.</p>	
<p><b>Eitem 2 - Aelodau newydd/Ymddiswyddiadau</b></p> <p>Mae Caroline Evans wedi gorfod ymddiswyddo o'r Fforwm Mynediad Lleol</p> <p>Mae MH a CF wedi anfon neges e-bost yn diolch iddi am ei chyfraniad i'r fforwm</p>	
<p><b>Eitem 3 - Ymddiheuriadau</b></p> <p>Daeth ymddiheuriadau i law ac fe'u cofnodwyd.</p>	
<p><b>Eitem 4 – Materion sy'n codi o'r cofnodion</b> - na roddwyd ar yr agenda fel arall</p> <p><u>Marchnata Llwybrau'r Sir</u></p> <p>RL: Pam nad yw'r eitem agenda hon a awgrymwyd yn flaenorol ar agenda y cyfarfod hwn? Mae nifer o faterion y mae angen eu codi ynghylch hyrwyddo mapiau.</p> <p>CF: Mae trafodaeth ynghylch y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn flaenoriaeth ar gyfer y cyfarfod hwn, mae trafodaeth ynghylch marchnata wedi cael ei gohirio tan cyfarfod mis Medi, a bydd yr adran farchnata yn cael ei gwahodd i'r cyfarfod.</p> <p><u>Cylch Gorchwyl y Fforwm Mynediad Lleol</u></p> <p>PB: Mae'n debyg bod pawb yn cytuno'n gyffredinol â Chylch Gorchwyl y Fforwm Mynediad Lleol</p> <p>MH: Gall yr eitem gael ei dynnu oddi ar yr agenda.</p> <p><u>Adroddiad Blynyddol</u></p> <p>CF: Angen ysgrifennu Rhagair yr Ysgrifennydd a'i anfon i gael ei gyfieithu</p> <p><u>Llinellau Melyn Dwbl ym Mhen-bre</u></p> <p>CF: Mae e-bost gan Neil Thomas yn cynnwys dolen i weld penderfyniad yr Aelod y Bwrdd Gweithredol ar-lein.</p> <p>SP: Mae'r llinellau melyn ar y ffordd fynediad i Ben-bre wedi'u cymeradwyo. Mae ystyriaeth i'r newidiadau parcio arfaethedig yn barhaus.</p> <p><u>Llwybr Dyffryn Tywi</u></p>	<p>CF</p> <p>CF</p>

Mae JE wedi rhoi gwybod nad yw wedi cael unrhyw ohebiaeth bellach ynghylch y posibilrwydd o gael taith farchogaeth gylchol gan ddefnyddio rhan o Lwybr Dyffryn Tywi a llwybr ceffylau gerllaw.

DS: Darllenodd sylwadau gan Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin ynghylch y lled delfrydol ar gyfer llwybr amldefnydd y gall beicwyr a cheffylau ei ddefnyddio. Roedd y lledau a awgrymwyd yn estyn hyd at 10 metr os byddai ceffylau yn cael mynediad ochr yn ochr â beicwyr.

Anghytunodd KB gan nodi bod y lled angenrheidiol yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

SP: Mae llawer o ddiddordebau cystadleuol dan sylw. Mae'n hapus i gadeirio cyfarfod er mwyn ail-ddechrau cyfathrebu â JE/BHS.

GW: Roedd nodyn cyngor a gyhoeddwyd gan un o'r Undebau Ffermwyr ynghylch mynediad i geffylau yn negyddol iawn.

MH: Cytunwyd ar gynnig y Fforwm Mynediad Lleol i gefnogi cynllun Llwybr Dyffryn Tywi, ac eithrio'r pwynt ynghylch ymrwymiad ariannol.

SP: Ni all neb ymrwymo am byth i lefel y cyllid ar gyfer gwasanaeth pan nad yw'r flwyddyn ariannol nesaf yn hysbys. Nid yw'r Awdurdod yn gallu ymrwymo 100% mewn dogfen i drefniadau ariannu Llwybr Dyffryn Tywi pan nad oes gennym reolaeth lawn o gyllidebau, mae'n gwneud y ddogfen yn ddiwerth.

RL: Nid dyma a ddywedwyd mewn nifer o gyfarfodydd blaenorol. Mewn Cyfarfod Cyhoeddus blaenorol, soniodd RL fod llifogydd yn bryder penodol a fydd yn arwain at gostau cynnal a chadw parhaus. Dywedodd y Cynghorydd Gravelle yn bendant yn y cyfarfod na fyddai arian ar gyfer cynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cynllun hwn.

Cadarnhaodd JG y rhoddwyd sicrwydd yn flaenorol na fyddai unrhyw arian ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ariannu Llwybr Dyffryn Tywi.

SP: Bydd sylwadau y Fforwm Mynediad Lleol yn cael eu hystyried ond ni all yr Awdurdod wneud ymrwymiad. Mae cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer y flwyddyn hon ond nid oes unrhyw sicrwydd ar gyfer y dyfodol.

DS: Mae pryderon wedi codi ynghylch gwario cyllideb gyfalaf Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar Lwybr Dyffryn Tywi.

SP: Nid yw Cyfalaf Mynediad i Gefn Gwlad wedi'i ddefnyddio hyd yn hyn ac nid oes unrhyw fwriad i wneud hynny.

RL: Roedd pryderon penodol ynghylch cynnal a chadw ond ni ddilynwyd y mater ymhellach gan fod yr ymateb a roddwyd yn dderbyniol.

MH: A allai'r Fforwm Mynediad Lleol gael ragor o wybodaeth am gyllidebau hawliau tramwy cyhoeddus

SP: Gellir dod o hyd i'r wybodaeth mewn dogfen gyhoeddus ar-lein, a gyhoeddir bob mis Chwefror rhwng 17 a 25 - yna eglurwyd cylch y gyllideb i aelodau.

MH: A allai'r Fforwm Mynediad Lleol gael gwybodaeth am hawliau tramwy cyhoeddus ynghylch cynlluniau cyllideb sydd i ddod.

SP: gallai, gellir darparu rhywfaint o wybodaeth.

MH: Efallai un opsiwn i symud ymlaen ac o bosibl gwella cefnogaeth y Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer prosiect Llwybr Dyffryn Tywi byddai rhoi golwg fanylach i'r Fforwm ar

gyllideb bob blwyddyn a thrafod a oes angen i CSC ddefnyddio'r gyllideb hawliau tramwy cyhoeddus i gynnal a chadw Llwybr Dyffryn Tywi.

#### Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus

MH: Anfonwyd llythyr o'r Fforwm Mynediad Lleol at Mike Roberts yn cefnogi parhad y GGMC presennol.

KB: Nid yw'n glir lle y mae GGMC mewn grym, byddai hyrwyddo'r wybodaeth hon yn bellach yn fuddiol.

#### Mynyddoedd Cambrian

MH: Anfonwyd llythyr o gefnogaeth mewn perthynas â dynodi Mynyddoedd Cambrian i ryw raddau a nodwyd y bydd sylwadau'r Fforwm Mynediad Lleol yn cael eu hystyried. Mae cyllid Mynyddoedd Cambrian yn dod i ben eleni felly mae'n ansicr i ba raddau y bydd y syniad yn datblygu.

JG: Cynigwyd hefyd fenter Awyr Dywyll a fyddai'n cael ei chynnwys.

#### Cyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaeth

Dosbarthwyd cofnodion cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth a fydd yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Penaethiaid Gwasanaeth ym mis Gorffennaf.

#### Mynediad i Geffylau

KB: A gafodd John Morgan e-bost ynghylch cyfleoedd datblygu Mynediad i Geffylau mewn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru?

MH: Dim eto, bydd yn derbyn e-bost cyn y cyfarfod nesaf

**MH**

#### **Eitem 5 – Adborth yr Ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**

Dosbarthwyd sylwadau'r Fforwm Mynediad Lleol yn yr ymgynghoriad i aelodau a chafwyd trafodaeth estynedig ynghylch pob sylw gan gynnwys y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid gweithredu newid i'r drafft.

Cafodd crynodeb o'r 114 o ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n weddill (nad ydynt yn y fforwm) ei ddosbarthu a'i ddarllen gan CF gan gynnwys y penderfyniad o ran a ddylid gweithredu newidiadau i'r drafft a'r rhesymau dros y penderfyniad.

CF i weithredu newidiadau i'r drafft

MH: Diolchwyd i CF am lunio a chrynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**CF**

#### **Eitem 6 - Fferm Wynt Brechfa**

JG: Nid yw'r ymateb diweddaraf gan CNC yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch atebolrwydd cyhoeddus. Anfonwyd e-bost i egluro'r cwestiwn eto gan ei fod yn ofyniad cyfreithiol i'r trefeddiannwr neu weithredwr y fferm wynt ddeall hyn er mwyn cael yswiriant

<p>atebolwydd cyhoeddus. Ni chafwyd cadarnhad o hyn. Bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>MH: Beth fydd y cam nesaf o ran y mater?</p> <p>JG: Ddim yn gwybod</p> <p>DS: Os yw atebolwydd cyhoeddus yn ofyniad cyfreithiol, a ddylai Mynydd Ddu gael yswiriant hefyd?</p> <p>JG: Mae gofynion Brechfa yn wahanol gan nad yw cynllun y fferm wynt yn cydymffurfio â'r canllawiau.</p> <p>SP: Mae yswiriant atebolwydd cyhoeddus yn indemnio'r tîrfeddiannwr, felly mae unrhyw risg yn risg y tîrfeddiannwr.</p> <p>JG: Os bydd digwyddiad yn ymwneud â'r tyrbinau, bydd atebolwydd yn debygol o gael ei ildio i'r busnesau llai sydd â llai o gapasiti i amddiffyn hawliad.</p>	
---	--

<p><b>Eitem 7 – Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Parhaol</b></p> <p>Dosbarthwyd rhestr o'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig parhaol i'r aelodau.</p> <p>MH: Aelodau sydd ag ymholiadau am lwybrau eraill y credir bod ganddynt Orchmynion Rheoleiddio Traffig i godi'r rhain â CF a all wneud ymholiad yn eu cylch.</p> <p>MH: Byddai fersiwn electronig yn ddefnyddiol, bydd CF yn ei anfon</p>	<p>Pawb</p> <p><b>CF</b></p>
<p><b>Eitem 8 – Adroddiadau ar faterion Hawliau Tramwy Cyhoeddus</b></p> <p>RL: Mae'r adroddiadau diweddaraf yn dangos gostyngiad yn y materion sydd heb eu datrys ers ffigurau'r chwarter diwethaf, mae hyn yn newyddion da. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau a dderbyniwyd ers Mai 2016 yn rhoi darlun manylach; mae data diweddar yn dangos gostyngiad mewn materion sydd heb eu datrys, ond mae'r duedd gyffredinol yn dangos cynnydd cyson ers 2016. Bu cynnydd pellach yn y materion cyfreithiol a'r materion cynnal a chadw a oedd heb eu datrys, sydd dros flwydd/tair blynedd/pum mlwydd oed. Gallai'r cynnydd yn nifer y materion a gofnodwyd fod oherwydd cynnydd yn nifer y materion, neu gallai fod yn adlewyrchiad o'r defnydd cynyddol o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus/Mynediad i Gefn Gwlad; y naill ffordd neu'r llall, mae'n peri pryder bod nifer y materion sydd heb eu datrys yn parhau i gynyddu.</p> <p>SP: Mae gwybodaeth o adroddiadau yn hynod ddefnyddiol ac yn helpu i wneud newidiadau i'r ffordd rydym yn darparu'r gwasanaeth.</p> <p>Cafwyd trafodaeth am y Dangosydd Perfformiad blynyddol. Nid yw wedi cael ei lunio eleni oherwydd pwysau gwaith.</p> <p>SP: Nid yw o reidwydd yn bosibl cyflawni adroddiad Dangosydd Perfformiad bob blwyddyn, dylid ei gwblhau mor aml â phosibl. Cadarnhaodd y byddai'n cael ei gynnal y flwyddyn nesaf.</p>	
<p><b>Eitem 9 – Y Diweddaraf am Lwybrau Cerdded y Sir</b></p>	

<p>Dosbarthodd CF restr gan Martin Murray yn manylu ar Lwybrau Cerdded y Sir a hyrwyddir gan CSC yn dilyn adolygiad diweddar. I'w thrafod â'r tîm marchnata yng nghyfarfod mis Medi y Fforwm Mynediad Lleol.</p>	
<p><b>Eitem 10 - Prosiect BOAT/ORPA</b></p> <p>MH: Heb glywed eto gan y gwasanaeth Priffyrdd ynghylch pa mor ddefnyddiol y bydd data'r arolwg a'r gwaith ymchwil i'w gwasanaeth.</p>	
<p><b>Eitem 11 - Unrhyw Fater Arall</b></p> <p>MH: Ni fydd Glyn Jones o CNC bellach yn un o gynrychiolwyr CNC ar y Fforwm Mynediad Lleol, mae angen gwirio a yw Russell Jones yn mynd i barhau?</p> <p>CF: Anfonodd CSC ymateb i ymgynghoriad ynghylch Ffordd Osgoi Llandeilo A483</p> <p>MH: Anfonwyd ymateb i ymgynghoriad ynghylch yr A483 ar ran y Fforwm Mynediad Lleol hefyd</p> <p>MH: Mae cyfarfod nesaf y Penaethiaid Gwasanaeth ym mis Gorffennaf.</p> <p>GW: Mae'r Cerddwyr yn bwriadu gwneud arolwg llwybr mawr arall, a oes modd defnyddio'r data o'r Big Pathwatch erbyn hyn?</p> <p>CF: Nid yw fformat data Pathwatch dal yn gydnaws â'r System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad, ond mae pencadlys y Cerddwyr yn ymwybodol bod angen iddynt sicrhau bod systemau Awdurdodau Lleol yn gallu defnyddio'r data a gesglir ganddynt.</p> <p>MH: A yw'r Aelodau yn ymwybodol o Becyn Cymorth Beicio CSC? Mae'n cynnwys cyngor i fusnesau ynghylch sut i ddenu rhagor o feicwyr. Mae Llanerchindda wedi gweithredu'r holl argymhellion ond nid oes busnes newydd o ganlyniad eto.</p> <p>JG: Mae ymchwil yn awgrymu bod beicwyr yn ymwelwyr dydd sy'n gwario £3 y person yn unig ar gyfartaledd.</p> <p>JG: Cronfa Budd Cymunedol Brechfa - 2 prosiect arfaethedig</p> <p>1) Mapio Fforest Brechfa Byddai arbenigedd mapio digidol CSC yn ddefnyddiol ar gyfer hyn.</p> <p>CF: Yn hapus i'r tîm hawliau tramwy cyhoeddus ddarparu ychydig o gyngor, ond nid yw'n gallu caniatáu cyfraniad pellach.</p> <p>2) Strategaeth Twristiaeth ar gyfer Fforest Cynigwyd cynnal Gweithdy/Digwyddiad Agored ym mis Medi 2019 i gasglu gwybodaeth gan ddefnyddwyr/darparwyr Bydd ardaloedd cudd ar gael ar gyfer arddangosiadau Byddai adborth ar yr amser gorau i gynnal y digwyddiad yn ddefnyddiol.</p> <p>KB: Y penwythnosau fyddai fwyaf hygyrch.</p>	<p><b>CF</b></p>
<p><b>Eitem 12 - Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol</b></p>	

Digon o eitemau ar yr agenda i lenwi'r agenda nesaf gan eu bod wedi cael eu gohirio i drafod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy	
<b>Eitem 18 - Cyfarfodydd Nesaf</b>  19 Medi 2019 - Canolfan Hamdden Caerfyrddin 5 Rhagfyr 2019 - Canolfan Tywi, Llandeilo.	